

Nodiadau canllaw ar gyfer llenwi rhybudd yr atebudd

Mae taflen o'r enw Rwyf am apelio sy'n rhoi gwybodaeth am wneud apêl yn, neu at, yr Uchel Lys neu lys sirol ar gael yn rhad ac am ddim o unrhyw lys sirol neu gan Glerc y Rhestrau Swyddfa Gyffredinol/Swyddfa Apeliadau yn y Llysoedd Barn Brenhinol, Strand, Llundain WC2A 2LL. Yn y daflen hon hefyd, ceir esboniad o ystyr rhai o'r termau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y canllawiau hyn.

Mae gwybodaeth ar gael ynghylch cyflwyno apêl i'r Llys Apêl gan Gofrestrfa'r Swyddfa Apeliadau Sifil, Ystafell E307, y Llysoedd Barn Brenhinol, Strand, WC2A 2LL

- ◆ Gall staff y llys eich helpu i lenwi rhybudd yr atebudd a dweud wrthyhych beth yw'r drefn. Fodd bynnag, ni chânt roi cyngor cyfreithiol i chi, er enghraifft, pa mor debygol yw'r apelydd o lwyddo gyda'i apêl, a ddylech ateb iddi, neu a ddylech apelio eich hunan.
- ◆ Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch ynghylch yr apêl, dylech gysylltu yn ddi-oed gyda thwrnai neu ganolfan gyfraith neu ganolfan cyngor ar bopeth.
- ◆ Os oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol, dylai eich twrnai lenwi'r ffurflen hon ar eich rhan.

Guidance notes for completing the respondent's notice

A free leaflet *I want to appeal* giving information about making an appeal in or to the High Court or county court is available from any county court or the Clerk of the Lists General Office/ Appeals Office at the Royal Courts of Justice, Strand, London WC2A 2LL. The leaflet will also explain some of the terms and expressions used in these notes of guidance.

Information is available about making an appeal to the Court of Appeal, from the Civil Appeals Office Registry, Room E307, Royal Courts of Justice, Strand, WC2A 2LL

- ◆ Court staff can help you complete the respondent's notice and tell you about the procedure. But they cannot give legal advice, for example, about the likely success of the appellant's appeal, whether you should reply to it or whether you should yourself appeal.
- ◆ If you need legal advice about this appeal, you should contact a solicitor or a law or advice centre.
- ◆ If you are legally represented, your solicitor should complete this form on your behalf.

Pryd i ffeilio rhybudd yr atebudd

Mae'n rhaid i chi ffeilio rhybudd os ydych chi'n dymuno:

- ◆ apelio yn erbyn y gorchymyn (mae apelio yn cynnwys gofyn am i'r gorchymyn gael ei amrywio); neu
- ◆ ofyn i'r llys apêl gadarnhau'r gorchymyn am resymau gwahanol neu ychwanegol. (Nid yw'r llys apêl yn trin hynny fel apêl.)

Os ydych chi'n dymuno i'r llys apêl gadarnhau gorchymyn a rhesymau y llys is, a bod gennych ddadleuon i gefnogi hyn i'w rhoi ger bron, mae dau ddewis gennych.

Cewch:

- ◆ naill ai lenwi rhybudd atebudd (ni fydd raid i chi lenwi adrannau 4,5,6 nac 8)
- ◆ neu, cewch nodi eich dadleuon ar ffurf dadl fframwaith. Cewch esboniad pellach yn y nodiadau i adran 7 Rhybudd yr Atebydd.

When to file a respondent's notice

You need to file a notice if you wish:

- ◆ to appeal against the order (appealing includes asking for the order to be varied); or
- ◆ to ask the appeal court to uphold the order for different or additional reasons. (This is not treated as an appeal by the appeal court.)

If you wish the appeal court to uphold the lower court's order and reasons, and have arguments to support this you wish to make, you have two options.

You can:

- ◆ either complete a respondent's notice (you will not need to complete sections 4,5,6 or 8);
- ◆ or, set out your arguments in a skeleton argument. The notes to section 7 of the Respondent's Notice will explain more about this.

Pwysig - Cyfyngiad amser ar gyfer ffeilio eich rhybudd

Cyfyngir ar yr amser sydd gennych i ffeilio rhybudd atebudd.

Rhaid i chi ffeilio eich rhybudd atebudd gyda'r llys apêl:

- ◆ o fewn y cyfnod penodol a bennwyd gan y barnwr a wnaeth y gorchymyn neu'r penderfyniad yr apeliwch yn ei erbyn; **neu**
- ◆ os na phennodd y barnwr hwnnw gyfnod penodol, cyn pen **14 diwrnod** ar ôl dyddiad cyflwyno:
 - rhybudd yr apelydd lle rhoddwyd caniatâd i apelio gan y llys is neu os nad oes angen caniatâd i apelio; **neu**
 - yr hysbysiad sy'n nodi fod y llys apêl wedi rhoi caniatâd i'r apelydd apelio; **neu**
 - yr hysbysiad sy'n nodi y bydd y cais am ganiatâd i apelio a'r apêl ei hun i'w clywed yn ystod yr un gwrandawriad

Rhaid i chi ffeilio eich rhybudd gyda'r llys sy'n ymdrin ag apêl yr apelydd.

Important - time limits for filing your notice

You have only a limited time in which file a respondent's notice.

You must file your respondent's notice with the appeal court:-

- ◆ within the time limit set by the judge whose order or decision is being appealed; **or**
- ◆ where that judge set no time limit, within **14 days** after the date of service of:
 - the appellant's notice where permission to appeal was given by the lower court or permission to appeal is not required; **or**
 - the notification that the appeal court has given the appellant permission to appeal; **or**
 - the notification that the application for permission to appeal and the appeal itself are to be heard together

You must file your notice with the court at which the appellant's appeal is proceeding.

Nodiadau cyffredinol ynghylch llenwi'r rhybudd

Cyhoeddir isod nodiadau i'ch helpu i lenwi'r ffurflen. Dylech ddarllen y nodiadau ar gyfer pob adran yn ofalus cyn dechrau llenwi'r adrannau eu hunain.

Defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen rhagor o le arnoch ar gyfer eich atebion gan nodi'n glir at ba adran y cyfeiria'r wybodaeth. Nodwch rif yr hawliad neu'r achos ar y ddalen, rhowch eich llofnod a'r dyddiad arni a sicrhau ei bod ynghlwm wrth y rhybudd.

Os nad yw'r holl wybodaeth angenrheidiol yn eich meddiant i gwblhau eich rhybudd atebydd (neu unrhyw ddogfen y mae ei hangen arnoch i'w ffeilio gydag ef), **peidiwch** â gadael i hynny beri i chwi oedi cyn anfon neu drosglwyddo trwy eich llaw eich hun y rhybudd i'r llys apêl o fewn yr amser priodol. Llenwch gymaint o'r ffurflen ag y gellwch gan gynnwys y dogfennau hynny sydd yn eich meddiant. Bydd y nodiadau i Adran 9 yn esbonio mwy ynghylch yr hyn y dylech ei wneud dan amgylchiadau o'r fath.

Nodwch rhif gyfeirnod y llys apêl ar rybudd yr atebydd, yn y gornel uchaf ar yr ochr dde. Bydd y rhif hwn i'w weld yng nghornel uchaf ochr chwith rhybudd yr apelydd.

General notes on completing the notice

Set out below are notes to help you fill in the form. You should read the notes to each section carefully before you begin to complete that particular section.

Use a separate sheet if you need more space for your answers marking clearly which section the information refers to. Write the claim or case number on it, sign and date it and attach it securely to the notice.

If you do not have all the information to complete your respondent's notice (or any documents that you need to file with it), you must **not** allow this to delay sending or taking it to the appeal court within the correct time. Complete the form as fully as possible and provide what documents you have. The notes to Section 9 will explain more about what you have to do in these circumstances.

Enter the appeal court's reference number in the top right hand corner of the respondent's notice. This number will appear on the top left hand side of the appellant's notice.

Adran 1

Manylion yr hawliad neu'r achos

Nodwch enw'r llys neu'r tribiwnlys a wnaeth y gorchymyn yr apeliwch yn ei erbyn, rhif yr achos neu'r hawliad, a theitl yr achos neu'r hawliad, e.e. 'John Smith v Eric James'. Cewch gymryd y manylion hyn o'r gorchymyn yr apeliwch yn ei erbyn.

Nodwch, trwy dicio'r blwch priodol, ba barti oeddech chi yn yr achos hwnnw.

Adran 2

Manylion yr Atebydd

Nodwch eich enw llawn a'r cyfeiriad lle dylid anfon pob dogfen sy'n ymwneud â'r apêl. Cofiwch gynnwys gwybodaeth ar gyfer cysylltu, e.e. rhif ffôn, ac unrhyw rhifau gyfeirnodau eraill.

Os oes mwy nag un atebydd, rhestrwch hwynt yn ôl eu henwau, eu cyfeiriadau a'u manylion cyswllt ar ddalen ar wahân. Nodwch rif yr achos neu'r hawliad arni a gwnewch yn siwr ei bod ynghlwm wrth y rhybudd.

Ticiwch y blwch i roi gwybod i'r llys os oes manylion ar wahân ynghlwm.

Section 1

Details of claim or case

Give the name of the court or tribunal whose order is being appealed, the number of the case or claim, and the title of the claim or case, eg. 'John Smith v Eric James'. You can take these details from the order being appealed.

Indicate, by ticking the appropriate box, which party you were in those proceedings.

Section 2

Respondent's details

Give your full name and an address to which all documents relating to the appeal can be sent. Include contact information, e.g. telephone and any other reference numbers.

If there is more than one respondent, list their names, addresses and contact details on a separate sheet of paper. Write the claim or case number on it and attach it securely to your notice.

Tick the box to let the court know if separate details are attached.

Adran 3

Amcangyfrif o amser gwrandawriad yr apêl

Nid oes angen i chi lenwi'r rhan hon os gwneir eich apêl i'r Llys Apêl yn Llundain.

Rhowch syniad bras o'r amser a gymerwch, yn eich ty^b chi, i gyflwyno eich achos ger bron y llys yng ngwrandawriad yr apêl. Mae angen y wybodaeth hon ar y llys er mwyn asesu faint o amser y barnwr y dylid ei neilltuo.

Adran 4

Manylion y gorchymyn y dymunwch apelio yn ei erbyn

Os mai rhan yn unig o orchymyn neu benderfyniad tribiwnlys sy'n destun eich apêl, rhaid i chi nodir rhan honno (neu rannau hynny) y gorchymyn yn y blwch a ddarperir.

Dylech nodi teitl ac enw llawn y barnwr, e.e. 'Ei Anrhydedd y Barnwr Jones' neu 'Barnwr Rhanbarth Smith', a dyddiad y gorchymyn neu'r penderfyniad y gwneir apêl yn ei erbyn.

Section 3

Time estimate for appeal hearing

You do not need to complete this section if your appeal is being made to the Court of Appeal in London.

Please give an estimate of how long you believe it will take you to present your case to the court at the appeal hearing. The court needs this information to assess how much of a judge's time to allow.

Section 4

Details of the order you are seeking to appeal

If you are appealing only part of an order or tribunal decision, you must write out that part (or those parts) of the order in the box provided.

You should give the full title and name of the judge, e.g. 'His Honour Judge Jones' or 'District Judge Smith', and the date of the order or decision being appealed.

Caniatâd i ffeilio rhybudd atebydd

Bydd rhaid i chi gael caniatâd, fel rheol, i ffeilio rhybudd atebydd i apelio yn erbyn penderfyniad barnwr mewn Uchel Lys neu lys sirol (mae apelio yn cynnwys gofyn am gael amrywio gorchymyn y barnwr).

Dim ond pan dybia'r llys bod gan eich apêl (neu gais i amrywio) gyfle realaidd o lwyddo y bydd yn rhoi caniatâd. Os ydych yn apelio yn erbyn penderfyniad rheoli achosion, bydd y llys yn rhoi ystyriaeth hefyd i'r canlynol:-

- ◆ a yw'r mater yn ddigon sylweddol i gyfiawnhau costau apêl;
- ◆ yr effaith gyffredinol ar yr amserlen rheoli achosion s, e.e. a yw colli dyddiad y treial yn fwy arwyddocaol na'r mater o drefn yr ydych yn apelio'n ei erbyn; ac
- ◆ a fyddai'n fwy cyfleus delio gyda'ch pwynt yn y treial.

Os mai apelio yn erbyn penderfyniad tribiwnlys a wnewch chi, dylech holi gyda'r tribiwnlys hwnnw i weld a oes angen i chi ofyn am ganiatâd i apelio ac, os oes, ai i'r tribiwnlys y mae gofyn am y caniatâd hwnnw neu i'r llys apêl.

Permission to file a respondent's notice

You will usually need permission to file a respondent's notice to appeal the decision of a judge of the High Court or a county court (appealing includes asking for the judge's order to be varied).

Permission will only be given where the court considers that your appeal (or application to vary) has a real prospect of success. Where your appeal is against a case management decision, the court will also consider:-

- ◆ whether the issue is significant enough to justify the costs of an appeal;
- ◆ the overall effect on the case management timetable, e.g. whether the loss of the trial date is more significant than the procedural point you wish to appeal; and
- ◆ whether it would be more convenient to deal with your point at the trial.

If you are appealing the decision of a tribunal, you should check with that tribunal whether you need to ask for permission to appeal and, if so, whether you need to ask for that permission from the tribunal or from the appeal court.

Dim ond yn achos y canlynol y mae angen i chi ofyn am ganiatâd i apelio yn y rhybudd hwn

- ◆ os nad oeddech chi wedi gofyn am ganiatâd i apelio yn y gwrandawriad lle gwnaed y penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn; neu
- ◆ os gofynnoch chi am ganiatâd, ond fod hwnnw wedi ei wrthod, a'ch bod yn dymuno i'r llys apêl ailystyried eich cais.

Nid oes angen caniatâd arnoch os yw'r gorchymyn yr apeliwch yn ei erbyn ymysg y canlynol:

- ◆ gorchymyn traddodi
- ◆ gorchymyn sy'n gwrthod caniatáu habeus corpus;
- ◆ gorchymyn llety caeth dan Adran 25 Deddf Plant 1989.
- ◆ gofyn i'r llys apêl gadarnhau penderfyniad a wnaed yn y llys is, er bod hynny am resymau gwahanol neu ychwanegol

Os oes angen rhagor o amser arnoch nag a ganiateir ar gyfer ffeilio eich rhybudd atebydd, rhaid i chi wneud cais yn y rhybudd ei hun. (*Gweler y nodiadau i Adran 9*).

You need only request permission to appeal in this notice if

- ◆ you did not ask for permission to appeal at the hearing at which the decision you are appealing against was made; or
- ◆ you asked for permission, but it was refused, and you wish the appeal court to reconsider your request.

You do **not** need permission if the order you are appealing against is one of the following:

- ◆ a committal order;
- ◆ an order refusing the grant of habeus corpus;
- ◆ a secure accommodation order under Section 25 of the Children Act 1989;
- ◆ to ask the appeal court to uphold the decision of the lower court, even though it is for different or additional reasons

If you need more time than that allowed for filing your respondent's notice, you must make an application in the notice itself. (*See the notes to Section 9*).

Sail dros apelio, neu dros gadarnhau'r gorchymyn

Os mai apelio yn erbyn gorchymyn y llys is a wnewch, rhaid i'ch apêl (mae apelio yn cynnwys gofyn am i'r gorchymyn gael ei amrywio) fod yn seiliedig ar 'sail' (rhesymau) sy'n berthnasol. Bydd llys apêl yn caniatáu apêl yn erbyn penderfyniad yn unig os oedd y penderfyniad hwnnw naill ai:-

- ◆ yn anghywir; neu
- ◆ yn anghyfiawn oherwydd afreoleidd-dra difrifol yn y drefn, neu o fath arall, pan gynhaliwyd yr achos yn y llys is.

Bydd y llys apêl yn annhebyg o wrth-droi penderfyniad mewn achos lle na fyddai hynny'n gwneud unrhyw wahaniaeth gwirioneddol i'r canlyniad; neu pan fyddai'r apêl yn golygu ailarchwilio'r ymchwiliad ffeithiol yr ymgymerwyd ag ef gan y llys is.

Nid yw gofyn i'r llys gadarnhau penderfyniad yn gyfystyr ag apêl ond rhaid i chi roi eich rhesymau os ydych yn gofyn am iddo gael ei gadarnhau ar sail wahanol neu am resymau ychwanegol.

Nodwch eich rhesymau yn gryno. Os yn bosib, rhestrwch eich rhesymau gan ddefnyddio paragraffau byr, a'r rheiny wedi'u rhifo ar wahân.

Grounds for appealing, or for upholding the order

If you are appealing against the lower court's order, your appeal (appealing includes asking for the order to be varied) must be based on relevant 'grounds' (reasons). An appeal court will only allow an appeal against a decision that was either:-

- ◆ wrong; or
- ◆ unjust because of a serious procedural or other irregularity in the lower court proceedings.

The appeal court will be unlikely to overturn a decision where no real difference would be made to the outcome of the case; or the appeal would involve re-examining the factual investigation undertaken by the lower court.

Asking the court to uphold a decision is not an appeal but you must give reasons if asking for it to be upheld on different or additional grounds.

Set your reasons out briefly. If possible, list your reasons in short separately numbered paragraphs.

Cofiwch na ddylech gynnwys unrhyw sail sy'n dibynnu ar dystiolaeth newydd, hynny yw, tystiolaeth a ddaeth i'r amlwg ers gwneud y gorchymyn. Ni ganiateir i chwi gyflwyno tystiolaeth newydd heb sicrhau, yn gyntaf, ganiatâd y llys apêl. (*Gweler y nodiadau i Adran 9*).

Adran 7

Dadleuon i gefnogi'r sail

Cewch amlinellu eich dadleuon (y cyfeirir atynt ar y cyd fel 'dadl fframwaith') yn yr adran hon o'r rhybudd, neu mewn dogfen ar wahân sydd i'w rhoi ynghlwm wrth y rhybudd hwn. Pan fo hynny'n briodol, dylent ateb y dadleuon a nodir yn nadl fframwaith yr apelydd.

Rhaid ffeilio unrhyw ddadl fframwaith ar wahân a'i chyflwyno i'r apelydd gyda'ch rhybudd cyflawn dim hwyrach na 14 diwrnod ar ôl i chi dderbyn dadl fframwaith yr apelydd.

Dylai dadleuon fframwaith gynnwys rhestr o bwyntiau wedi eu rhifo y mae'n fwriad gennych eu dadlau yn y gwrandawriad. Dylid datgan pob pwynt mewn ychydig frawddegau yn unig. Cyfeiriwch ym mhob pwynt at unrhyw ddogfen yr ydych yn ei ffeilio gyda'ch rhybudd atebydd i gefnogi'r ddadl honno (*gweler Adran 10 ar ddogfennau*).

Remember that you must not include any grounds which rely on new evidence, that is, evidence that has become available since the order was made. You may not produce new evidence without first obtaining the permission of the appeal court. (*See the notes to Section 9*).

Section 7

Arguments in support of grounds

Your arguments (together referred to as a 'skeleton argument') may be set out in this section or in a separate document attached to this notice. They should, where appropriate, answer the arguments set out in the appellant's skeleton argument.

Any separate skeleton argument has to be filed and served on the appellant with your completed notice no later than 14 days after you receive the appellant's skeleton argument.

Skeleton arguments should contain a numbered list of points that you intend to argue at the hearing. Each point should be stated in no more than a few sentences. Refer at each point to any document you are filing with your respondent's notice which supports that argument. (*See Section 10 on documents*)

Gellir defnyddio ffurflen N163 i nodi eich dadl fframwaith. Mae'n bosib cael y ffurflen hon o swyddfa unrhyw lys neu gan Glerc y Rhestrau Swyddfa Gyffredinol/Swyddfa Apeliadau, y Llysoedd Barn Brenhinol, Strand, Llundain WC2A 2LL.

Gwybodaeth ddefnyddiol arall

Ceisiwch ystyried pa wybodaeth arall a allai fod yn ddefnyddiol i'r llys apêl. Er enghraifft, gallai rhestr o'r bobl sy'n gysylltiedig â'r achos fod yn fuddiol, esboniad o'r termau technegol sy'n ymddangos yn y papurau, neu restr o'r digwyddiadau yn nhrefn amser (cronoleg). Os ydych chi'n cyflwyno unrhyw un o'r rhain, dylech wneud hynny ar ddarn o bapur ar wahân a hwnnw ynglhw m i'ch rhybudd, a rhif yr achos neu'r hawliad ac enwau'r partïon wedi'u nodi'n glir arno. Nid oes raid i chi ddyblygu unrhyw un o'r dogfennau sydd eisoes wedi'u cyflwyno gan yr apelydd.

Adran 8

Pa benderfyniad ydych chi am i'r llys ei wneud?

Nodwch fanylion y gorchymyn (gorchymynion) (neu'r amrywiad i'r gorchymyn (gorchymynion) gwreiddiol) y dymunwch i'r llys apêl ei wneud/eu gwneud.

Form N163 can be used to set out your skeleton argument. This form can be obtained from any court office or from the Clerk of the Lists General Office/ Appeals Office, The Royal Courts of Justice, Strand, London WC2A 2LL.

Other useful information

Try to consider what other information the appeal court might find useful. For example, the court would find it helpful to have a list of people who feature in the case, an explanation of technical terms use in the papers or a list of events in date order (a chronology). If you are providing any of these, they should be on a separate piece of paper attached to your notice marked with the case or claim number and the names of the parties. You do not need to duplicate any of the documents which the appellant has already provided.

Section 8

What decision are you asking the court to make

Set out details of the order(s) (or the variation to the original order(s)) that you want the appeal court to make.

Ceisiadau eraill

Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am fwy o amser i ffeilio rhybudd atebydd cyflawn ynghyd ag unrhyw ddogfennau cefnogol, rhaid gwneud hynny yn y rhybudd ei hun. Dylech nodi eich rheswm dros yr oedi a'r camau a gymerwyd hyd at adeg ffeilio'r rhybudd hwn.

Mae'n bosib eich bod yn dymuno gwneud ceisiadau ychwanegol i'r llys apêl mewn perthynas â'ch apêl neu'ch cais i amrywio neu gadarnhau'r gorchymyn. Cewch wneud unrhyw geisiadau eraill naill ai yn y rhybudd ei hun, neu mewn rhybudd o gais ar wahân (Ffurflen N244). Mae'n bosib cael y ffurflen hon o'r llys. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu ffioedd ychwanegol os caiff ei ffeilio yn ddiweddarach na'ch rhybudd atebydd.

Dyma'r math o gais y gallech fod eisiau ei wneud:-

- ◆ gwneud newidiadau i'ch rhybudd atebydd ar ôl iddo gael ei ffeilio yn y llys. Ond sylwch fod yr hawl gennych i newid eich dadl fframwaith (hyd yn oed os yw honno wedi'i chyflwyno yn rhan 7 eich rhybudd) heb wneud cais;

Other applications

If you wish to apply for an extension of time to file a fully completed respondent's notice with any supporting documents, this must be made in the notice itself. You should state the reason for the delay and the steps taken up to the time of filing the notice.

You may wish to make additional applications to the appeal court in connection with your appeal or application to vary or uphold the order. Any other applications may be made either in the notice, or in a separate application notice (Form N244). This form can be obtained from the court. You may have to pay additional fees if it is filed at a later date than your respondent's notice.

The types of application you might want to make will include:-

- ◆ amending (make changes to) your respondent's notice after it has been filed at court. But note that you can amend your skeleton argument (even if it is set out in part 7 of your notice) without making an application;

- ◆ gofyn i'r llys apêl godi ataliad rhag gweithredu'r gorchymyn neu ohirio'r achos nes cyhoeddi canlyniad yr apêl. (Nid oes raid i chi wneud hyn os ydych eisoes wedi cael ataliad gan y llys is neu os daw eich apêl o'r Tribiwnlys Apêl Mewnffudo.)
- ◆ cyflwyno tystiolaeth newydd yn yr apêl neu ofyn am ganiatâd i gyflwyno tystiolaeth lafar yng ngwrandawriad yr apêl. Bydd angen i chi nodi'r rhesymau pam na chyflwynwyd y dystiolaeth newydd ger bron y llys gwreiddiol ac, os gofynnwch am gael rhoi tystiolaeth lafar, pam y credwch fod angen gwneud hynny;
- ◆ gofyn am sicrwydd y telir costau, hy y bydd gorchymyn i'r apelydd dalu swm o arian i'r llys a fydd yn ddigonol i dalu unrhyw gostau y gorchymynnir yr apelydd eu talu yn yr apêl.
- ◆ asking the appeal court to issue a stay on executing the order or suspend any action in the case pending the outcome of the appeal. (You do not need to do this if you have already obtained a stay from the lower court or the appeal is from the Immigration Appeal Tribunal.);
- ◆ producing new evidence in the appeal or asking for permission to produce oral evidence at the appeal hearing. You will need to give reasons why the new evidence was not before the original court and, where oral evidence is requested, the reasons why you think it is necessary;
- ◆ asking for security for costs, ie that the appellants be ordered to pay a sum of money into court sufficient to cover any costs the appellants may be ordered to pay in the appeal.

Dogfennau cefnogol

Mae'n bosib y bydd gennych ddogfennau ychwanegol i'r rhai a gaiff eu ffeilio gan yr apelydd i gefnogi ei apêl neu eich cais i amrywio neu gadarnhau'r gorchymyn. Dylai'r rhain fod mewn bwndel ac wedi'u ffeilio gyda'ch rhybudd atebydd.

Peidiwch ag oedi cyn ffeilio eich rhybudd atebydd yn y llys apêl.

Os methoch â chael unrhyw rai o'r dogfennau y dymunwch eu ffeilio gyda'ch rhybudd, llenwch gymaint ag y gellwch o'r rhybudd, a sicrhau y caiff ei ffeilio mewn pryd.

Dylai eich bwndel gynnwys unrhyw rai o'r canlynol (oni bai eu bod eisoes wedi'u cynnwys yn y bwndel sy'n cael ei ffeilio gan yr apelydd):-

- ◆ eich rhybudd atebydd ac unrhyw ddadl fframwaith (os ar wahân);
- ◆ unrhyw ddatganiadau tyst neu affidafidau i gefnogi unrhyw gais sydd wedi'i gynnwys yn Adran 5 neu 9 eich rhybudd neu mewn rhybudd o gais Rhan 23 ar wahân;
- ◆ unrhyw affidafid neu ddatganiad tyst eraill sydd wedi'i ffeilio i gefnogi eich dadleuon; ac
- ◆ unrhyw ddogfennau eraill y cafwyd cyfarwyddiadau gan y llys i'w ffeilio yn yr apêl.

Supporting documents

You may have additional documents to those filed by the appellant to support your appeal or your request to vary or uphold the order. These should be in a bundle and filed with your respondent's notice.

Do not delay filing your respondent's notice at the appeal court.

If you have not been able to obtain any of the documents that you wish to file with your notice, complete the notice as best you can and ensure that it is filed on time.

Your bundle should include any of the following (unless they are already included in the bundle filed by the appellant):-

- ◆ your respondent's notice and any skeleton argument (if separate);
- ◆ any witness statements or affidavits in support of any application included in Sections 5 or 9 of your notice or in a separate Part 23 application notice;
- ◆ any other affidavit or witness statement filed in support of your arguments; and
- ◆ any other documents directed by the court to be filed in the appeal.

Cofiwch, os ydych chi'n ffeilio unrhyw rai o'r dogfennau yn ddiweddarach, rhaid i chi edrych i weld a yw'r wybodaeth a roddwch yn gwneud gwahaniaeth i'r manylion a gyflwynwyd gennych eisoes yn eich rhybudd atebydd. Os yw'n gwneud gwahaniaeth, rhaid i chi wneud cais i'r llys am ganiatâd i ddiwygio'r rhybudd. Gall y llys ddweud wrthych sut i wneud hyn.

You should remember that if you file any of the documents at a later date, you must check whether or not the information you are providing alters any of the details already given in your respondent's notice. If it does, you will need to apply to the court for permission to amend the notice. The court can tell you how to do this.

Beth nesaf?

Ffeilio eich rhybudd cyflawn

Gwnewch gopi o'ch rhybudd cyflawn (ac unrhyw ddadl fframwaith neu fwndeli o ddogfennau ar wahân) fel bod gennych un copi i chi eich hun, dau gopi i'r llys, ac un copi i bob atebydd. Anfonwch, neu trosglwyddwch drwy eich llaw eich hun, y rhybudd a'r bwndeli neu ddogfennau cefnogol i swyddfa'r llys gyda'r ffi briodol. Gall y llys ddweud wrthych faint yw'r ffi.

Cyflwyno eich rhybudd atebydd

Rhaid cyflwyno copi wedi'i selio o'r rhybudd hwn, ynghyd ag unrhyw ddadleuon fframwaith ar wahân neu fwndel o ddogfennau, i'r apelydd cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ond dim hwyrach na 7 niwrnod ar ôl ei ffeilio yn y llys. Bydd y llys yn cyflwyno pob dogfen sydd wedi'i

What happens next?

Filing your completed notice

Copy the completed notice (and any separate skeleton argument or bundles of documents) so that you have one copy for yourself, two copies for the court and one copy for each respondent. Send or take the notice and any supporting documents or bundles to the court office with the appropriate fee. The court can tell you how much this is.

Serving your respondent's notice

The appellant must be served with a sealed copy of this notice any separate skeleton arguments or bundle of documents as soon as practicable but no later than 7 days after it is filed at court. The court will serve all the documents filed on the appellant and any other respondents unless you

ffeilio i'r apelydd ac unrhyw atebwyr eraill oni bai i chi ddweud wrth y llys eich bod yn dymuno gwneud hynny eich hunan. Rhaid cyflwyno unrhyw ddadl fframwaith ar wahân (gweler y nodiadau i Adran 7 uchod) gyda rhybudd yr atebydd, os yw hynny'n bosib, neu cyn pen 21 diwrnod ar ôl derbyn dadl fframwaith yr apelydd.

Os gwnaethoch gais am fwy o amser i ddarparu'r holl wybodaeth y mae ei hangen arnoch ar gyfer yr apêl, bydd gan yr atebydd yr hawl i fod yn bresennol yng ngwrandawriad y cais.

tell the court that you wish to serve it yourself. Any separate skeleton argument (see the notes to Section 7 above) must be served with the respondent's notice where possible or within 21 days of receiving the appellant's skeleton argument.

If you have made an application for additional time to provide all information you need for appeal, the respondent will have the right to attend the hearing of your application.